# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 15 Tachwedd 2001 i'w hateb ar 29 Tachwedd 2001

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**1. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A oes gan y Gweinidog amserlen ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes yng Nghymru. (OAQ14310)

**2. Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff ddatganiad byr ar rôl partneriaethau cyhoeddus-preifat yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. (OAQ14332)

**3. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa waith ymchwil neu fathau eraill o ryngweithio sy'n digwydd rhwng y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a gwasanaethau iechyd gwledydd eraill yn Ewrop. (OAQ14322)

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr ar y Strategaeth Iechyd Rhywiol. (OAQ14301)

**5. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ar rôl y Byrddau Iechyd Lleol yn y gwaith o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. (OAQ14360)

**6. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith o sefydlu Ysbyty Plant yng Nghymru. (OAQ14313)

**7. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar ba fesurau y mae'n eu hystyried ar gyfer lleihau amseroedd aros yn yr NHS. (OAQ14314)

**8. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amser y mae'n rhaid i feddygon ei dreulio gyda chleifion yn ystod ymgynghoriad. (OAQ14356)

**9. Geraint Davies (Rhondda);** A wnaiff ddatganiad byr ar Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. (OAQ14298)

**10 Janice Gregory (Ogwr);** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i godi

ymwybyddiaeth o chlamydia. (OAQ14352)**TYNNWYD YN OL**

**11. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr ar rôl y Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol. (OAQ14321)

**12. Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Beth fydd rôl Byrddau Iechyd Lleol yn y gwaith o hyrwyddo iechyd da, yn hytrach na gwella salwch. (OAQ14366)

**13. Lynne Neagle (Tor-faen);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda phroffesiynolion iechyd ynghylch pa mor hawdd yw cael gafael ar Embrel a Remicade yng Nghymru. (OAQ14362)

**14. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd y mae'n disgwyl cynnal ei chyfarfod nesaf â Chadeirydd Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Powys i drafod y trefniadau ar gyfer darparu gofal iechyd ym Mhowys. (OAQ14357)

**15. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff ddatganiad ar iechyd rhywiol yng Nghymru. (OAQ14305)

Gofyn i Bwyllgor y Ty

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa gamau a gymerwyd i ddarparu swyddfa bost i staff Ty Crucywel. (OAQ14372)**TROSGLWYDDWYD I'W ATEB YN YSGRIFENEDIG**

**2. Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** A yw Pwyllgor y Ty wedi ystyried darparu cysylltiadau band llydan i swyddfeydd yr Aelodau er mwyn i bob Aelod ddeall potensial hynny o ran hwyluso datblygu economaidd. (OAQ14371))**TROSGLWYDDWYD I'W ATEB YN YSGRIFENEDIG**

**3. Alison Halford (Delyn);** Pryd fydd cyfrifiaduron swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad yn cael eu diweddaru er mwyn iddynt fod â'r un meddalwedd ag sydd gan weision sifil y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd. (OAQ14370))**TROSGLWYDDWYD I'W ATEB YN YSGRIFENEDIG**

**4. Karen Sinclair (De Clwyd);** Pa gamau a gymerwyd i ddarparu cyfleusterau cyfieithu Iaith Arwyddion Prydain yn y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ14373)**TYNNWYD YN OL**